



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Y

cymwysterau

rydyn ni'n

eu derbyn

a sut i

gofrestru

heb

gymhwyster

Gwybodaeth am y cymwysterau
sydd eu hangen arnoch chi i
gofrestru a beth i wneud os nad oes
gennych chi'r cymhwyster sydd ei
angen.

Cyhoeddwyd gyntaf: 6 December 2018

Diweddariad olaf: 9 October 2026

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o
gofalcymdeithasol.cymru ac efallai
nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i

<https://gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/y-cymwysterau-rydyn-nin-eu-derbyn-a-sut-i-gofrestru-heb-gymhwyster> am y
fersiwn diweddaraf.

Gwybodaeth am y cymwysterau sydd eu hangen arnoch chi i gofrestru a beth i wneud os nad oes gennych chi'r cymhwyster sydd ei angen.

Gweithwyr gofal cymdeithasol

Mae dwy ffordd i gofrestru gyda ni. Gallwch chi gofrestru gyda **chymhwyster presennol**, neu os **nad oes gennych gymhwyster**, gallwch chi gofrestru trwy broses o'r enw asesiad gan gyflogwr.

Cofrestru gyda chymhwyster

Gallwch chi gofrestru gan ddefnyddio cymhwyster City & Guilds Lefel 2 lechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd. Yna bydd angen i chi gwblhau'r cymhwyster City & Guilds Lefel 2 neu 3 lechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer, os nad yw gennych chi'n barod.

Mae gennych chi chwe blynedd i gael y cymhwyster, ond rydyn ni'n disgwyl i'r rhan fwyaf o weithwyr gofal cymdeithasol wneud hynny o fewn tair blynedd ar ôl iddynt gofrestru gyda ni am y tro cyntaf.

Gallwch hefyd gofrestru os oes gennych Lefel 2 neu 3 mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol (Diploma, QCF neu NVQ) neu gymhwyster cyfwerth.

Beth sydd angen i chi ei wneud:

- [gwirio bod eich cymhwyster yn cael ei dderbyn ar gyfer cofrestru](#)
- [gwneud cais i gofrestru ar GCCarlein](#).

Os oes gennych chi eisoes gymhwyster gofal cymdeithasol nad yw wedi'i restru ar ein fframwaith cymwysterau, dylech wirio'r [rhestr cymwysterau swyddogol](#)

[cyfwerth](#) i weld os ydi eich cymhwyster yn cael ei dderbyn yng Nghymru.

Os nad yw'r cymhwyster ar y rhestr, ond eich bod chi'n meddwl ei fod yn berthnasol i weithio ym maes gofal cymdeithasol, gallwch ei asesu drwy'r broses Asesu Cywerthedd Cymwysterau (QEA).

Rhagor o wybodaeth am [asesu cywerthedd cymwysterau](#).

Cofrestru trwy asesiad gan gyflogwr

Os nad oes gennych un o'r cymwysterau gofynnol, gall eich cyflogwr eich asesu a rhoi gwybod i ni fod gennych y sgiliau a'r wybodaeth gywir i weithio ym maes gofal cymdeithasol. Bydd yn dal angen i chi gael cymhwyster, ond gallwch wneud hyn ar ôl i chi gofrestru.

[Mwy o wybodaeth am asesiad gan gyflogwr](#)

Rheolwyr gofal cymdeithasol

Edrychwch ar y [fframwaith cymwysterau](#) i weld pa gymwysterau sydd eu hangen arnoch i gofrestru fel rheolwr gofal cymdeithasol.

Os ydych chi'n weithiwr gofal cymdeithasol gyda chymhwyster Lefel 3 neu dystysgrif Camu i Fyny i Reoli PDC Lefel 4, gallwch gofrestru fel rheolwr gofal cymdeithasol **cyn belled â'ch bod wedi cofrestru ar gymwysterau Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arweinyddiaeth a Rheolaeth mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol neu gymwysterau Lefel 5 Arweinyddiaeth a Rheolaeth mewn Ymarfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.**

Ar ôl i chi gofrestru, bydd gennych dair blynedd i gael y cymhwyster Lefel 5 a rhaid i chi ei gael cyn i chi adnewyddu eich cofrestriad.

Cymwysterau eraill

Os oes gennych gymhwyster gofal cymdeithasol eisoes nad yw wedi'i restru ar ein fframwaith cymwysterau, dylech wirio'r [rhestr](#) i weld os yw eich cymhwyster yn cael ei dderbyn yng Nghymru.

Os nad yw'r cymhwyster ar y rhestr, ond eich bod yn meddwl ei fod yn berthnasol i weithio ym maes gofal cymdeithasol, gallwch ei asesu drwy'r broses Asesu Cywerthedd Cymwysterau (QEA).

Gall gweithwyr cymdeithasol, nyrsys a therapyddion galwedigaethol hefyd gofrestru fel rheolwyr gofal cymdeithasol, ond rhaid iddynt gwblhau cymhwyster rheoli o fewn y tair blynedd gyntaf o gofrestru. Rhaid i'r cymhwyster rheoli fod:

- o leiaf 37 credyd
- wedi'i asesu yn y gweithle
- ar lefel 3 neu uwch.

Os ydych chi wedi cofrestru fel gweithiwr ond yn gweithio fel rheolwr, mae angen i chi anfon e-bost atom yn cofrestru@gofalcymdeithasol.cymru i roi gwybod i ni. Byddwn yn gofyn am fanylion eich rôl a byddwn yn dweud wrthyich beth yw'r camau nesaf ar gyfer newid y rôl rydych chi wedi'i chofrestru ynddi.

Os nad ydych eisoes wedi cofrestru gyda ni, gallwch wneud cais ar [GCCarlein](#).

Gweithwyr cymdeithasol

Gwybodaeth am y cymwysterau sydd eu hangen i gofrestru fel gweithiwr cymdeithasol

Os ydych chi'n fyfyrwr gwaith cymdeithasol ar eich blwyddyn olaf ac nad ydych wedi derbyn cadarnhad o'ch cymhwyster, mae dal yn bosibl i chi wneud cais i gofrestru gyda ni gan y byddwn yn derbyn y wybodaeth hon yn uniongyrchol gan eich prifysgol neu goleg.

Gwasanaeth gwirio cymwysterau gwaith cymdeithasol

Rydyn ni'n cynnig gwasanaeth gwirio cymwysterau sy'n gwirio unrhyw gymhwyster cymeradwy mewn gwaith cymdeithasol a ddyfernir yng Nghymru (mae hyn yn cynnwys cymwysterau cyn y radd mewn gwaith cymdeithasol).

Gallwch ofyn i ni am llythyr sy'n dangos:

- y cymhwyster a gafwyd
- dyddiad cymhwyso
- y sefydliad hyfforddi a fynychwyd
- enw'r person a dderbyniodd y dyfarniad.

Byddwch yn ymwybodol:

- y gall y gwasanaeth hwn gymryd **hyd at 20 diwrnod gwaith**
- dim ond i ddeiliad y dyfarniad y gallwn anfon llythyrau gwirio
- mae angen caniatâd ysgrifenedig arnom i'w anfon at gyflogwr neu asiantaeth gyflogaeth
- nid yw'r llythyr gwirio yn gyfystyr â manylion adnabod
- nid yw'r llythyr yn dystiolaeth fod person yn weithiwr cymdeithasol cymwysedig cofrestredig

- mae gan gyflogwyr gyfrifoldeb i wirio'r manylion hyn.

Os ydych chi eisiau llythyr gwirio ar gyfer cymhwyster a ddyfarnwyd yng Nghymru, llenwch y ffurflen isod a'i hanfon at

cofrestru@gofalcymdeithasol.cymru:

- [Ffurflen gais llythyr gwirio](#)